**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 11 Gorffennaf, 2024**

**Yng Nghapel Peniel, Ceidio am 7.30 yh**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Rhys Jones (Is-gadeirydd)

Catherine Hughes

Dafydd Ll Williams

Gareth Roberts

Tesni Jones

Cynghorydd Sirol Anwen Davies

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan, Wynne Davies, Einir Lewis, Phil Roberts a Nia M Jones.

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin**
Cadarnhawyd bod cofnodion 13/06/24 yn gywir gan y Cynghorydd Dafydd LL Williams, ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

**Materion yn codi**

**Ail-leoli'r Cyfarfod**
Nodwyd ein bod am ail-leoli'r cyfarfod yma i Glwb Rygbi Pwllheli, ym mis Medi. Nodwyd bod y Cadeirydd wedi cysylltu gyda Adam o'r Clwb, ac yna'r Clerc wedi cael cyfarfod Teams gydag ef. Mae Adam wedi gaddo cysylltu gyda'r Trysorydd a hefyd gadael i ni wybod beth yw'r costau o hurio ystafell, ac os yw'r cyfleusterau ar agor.

**Y Fainc ym Moduan**
Bu i ni drafod y Fainc ym Moduan. Lleolir y fainc ar lecyn bach o dir ym Moduan, ac yn ôl y sôn mae perchennog y tŷ sydd tu cefn i'r llecyn wedi cofrestru'r tir ar gofrestr y "Land Registry". Ers 1920 mae meinciau lu wedi cael eu lleoli yn y lleoliad yma. Roedd plac arni hi gyda'r ysgrifen **"Rest and be thankful"**, ond

erbyn hyn mae'r plac wedi diflannu oddiarni. Cytunwyd y byddem yn gosod plac newydd arni. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda "Unllais Cymru", i weld beth yw eu barn, ac hefyd beth yw ein hawliau o droedio ar y tir yma i'w osod.

**Menter Rabar**

Trafodwyd Menter Rabar, a phenderfynwyd peidio cefnogi'r cais drwy gyfrannu'n ariannol.

**Polisi Iaith**

Trafodwyd ein Polisi Iaith, ac fe fu i'r Cadeirydd ei ddarllen a'i arwyddo. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ei uwchlwytho i'r wefan.

**Map digidol o Blwyf Boduan**

Trafodwyd map digidol o blwyf Boduan. Penderfynwyd lleoli copi ohonno ar wefan Cyngor Cymuned Buan.

**Cae Chwarae a Maes Parcio, Rhydyclafdy**

Nid oedd unrhyw ddiweddariad o ran y Cae Chwarae a'r Maes Parcio. Nodwyd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda Ken er mwyn dilyn i fyny ar y gwaith concritio.

**Gohebiaeth**

**Gosod Plac/Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**

- Penderfynwyd bod Cyngor Cymuned Buan yn cario mlaen gyda'r fenter.
- Penderfynwyd cyfarfod yn y "layby" wrth ochr Eglwys Boduan fore Sul 14/07/24 am 11yb er mwyn penderfynnu ar leoliad y garreg gilbost.
- Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd a'r Adran Gynllunio wedyn i ofyn am ganiatad i'w gosod.
- Cytunwyd y byddwn yn gosod llechen ar y garreg gilbost.
- Cytunwyd y byddem y cael 3 pris ar gyfer cael ysgrifen ar y lechan a'i gosod, gan dri Cwmni – Llechi'r Ddraig, Hefin Underwood a Mike Tanner.
- Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Iestyn Tyne ynghlyn a'r gwpled.
- Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies yn bresennol i'r agoriad swyddogol.

**Casglu Ysbwriel**

Trafodwyd y sefyllfa o'r biniau ysbwriel yn cael eu cadw tu allan i dai ym Mhentre' Rhydyclafdy am ddyddiau ar y tro, yn hytrach na'u cadw'n syth ar ôl eu casgliad wythnosol wedi gwella. Nodwyd bod y broblem yn dal i barhau. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Sirol yn cysylltu gyda Haydn Jones, Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu, Cyngor Gwynedd.

**Cais Cynllunio**
Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio o'r newydd wedi dod gerbron y Pwyllgor.

**Rhif Achos - G23/0281** - Sied fawr wedi cael ei chodi yn Yr Ynys, Boduan heb gais cynllunio a **Rhif Achos – G24/092** codi estyniad ar dŷ "Yr Ynys", hefyd heb gais cynllunio. Nodwyd y Clerc ei bod wedi gyrru e-bost i'r Tîm Gorfodaeth 08/07/24 i'w holi am ddiweddariad, bu i Aneurin Môn Parry, Arweinydd Tîm Gorfodaeth gadarnhau ei fod wedi trefnu i aelod o'r Tîm fynychu'r safle i archwilio'r ddau achos - 12/07/24.

**Materion ariannol**
Cysoniad banc o ddyddiad:
04/05/24 – 03/06/24 - £8,356.85c
04/06/24 – 03/07/24 - £8,157.86c

Derbyniwyd y Datganiad Banc Mis Mehefin 2024 gan y Cynghorwyr.

Cafodd 5 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Rhys Jones.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200806 | Ad-daliad i'r Clerc am archebu box file | £4.00 |
| Siec Rhif 200807 | Cyflog y Clerc (Mis 4) | £204.80c |
| Siec Rhif 200808 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 4) | £51.20c |
| Siec Rhif 200809 | Costau teithio'r Clerc | £2.25c |
| Siec Rhif 200810 | Hurio Ystafell i gynnal y cyfarfod yng Nghapel Peniel, Ceidio | £20.00 |

**Cyflog y Clerc**
Nodwyd bod Bacstal wedi diweddaru cyflog y Clerc, â'r addasiadau wedi'w gwneud.

**Unrhyw fater arall**

**Cytundeb gwaith y Clerc**
Nodwyd bod cytundeb gwaith y Clerc wedi'w ddiweddaru.

**Lwfans Cynghorwyr 2024/2025**
Nodwyd bod Bleddyn Rhys (Uned Archwilio Cyngor Gwynedd) wedi tynnu i'm sylw bod y lwfans cynghorwyr wedi codi o £150 i £156. Bydd angen nodi'r newid yma ar y gwaith papur ar gyfer y flwyddyn 2024/2025. Gofynnwyd i'r Clerc checio hefo "Unllais Cymru" o flaen llaw i weld os oes unrhyw gynnydd.

**Archwiliad Mewnol**
Nodwyd ein bod wedi pashio'r archwiliad mewnol gyda Chyngor Gwynedd, a'n bod wedi derbyn yr adroddiad ganddynt i gadarnhau hyn.

**Cwblhau Archwiliad – Archwilio Cymru**
Bwriad y Clerc yw cwblhau'r archwiliad yma yn ystod y bythefnos nesaf. Cytunwyd i'r gwaith papur gael ei gwblhau gan y Clerc, a cytunwyd y byddai'n ei yrru yn ôl i DLLW i fwrw golwg drosto. Munud fydd Dafydd yn rhoi'r golau gwyrdd, NJ i gysylltu gyda Archwilio Cymru i agor safle'r portal er mwyn uwchlwytho'r dogfennau.

Nodwyd i'r Clerc gysylltu gyda Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd er mwyn adrodd ar y canlynol :

- Nodwyd bod gyrru drwy bentref Rhydyclafdy yn broblemus. Gofynnwyd pe byddem yn gallu lleoli "Mesuriadur" i fonitro cyflymdra'r ceir sy'n dŵad i mewn i'r Pentref. Consyrn y trigolion yw bod y ceir yn gyrru yn ofnadwy, a'u bod yn ofni, bod criw o blant bychain yn y pentref ar hyn o bryd yn chwarae yng nghanol y Pentref, ac ofn iddynt gael eu taro.
- Nodwyd hefyd bod gor-yrru yn digwydd ar y ffordd rhwng Boduan a Phentreuchaf, a gofynnwyd i'r Clerc dynnu ei sylw i'r mater yma, gan bod damwain wedi digwydd yn ddiweddar yn y groesffordd ger Glanrafon.

****Dalier sylw NID OES CYFARFOD YN CAEL EI GYNNAL MIS AWST****

Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 12/09/24 yng Nglwb Rygbi Pwllheli, Efailnewydd am 7.30yh.